



Er bod ailgylchu'n cael ei hybu, mae llawer o wastraff cymysg yn dal i gael ei gynhyrchu. Mae cryn dipyn ohono'n cael ei losgi gan greu ynni ar gyfer gwresogi a thrydan..

Newid yn yr hinsawdd CO ₂ e y kW awr	415 gram 166 gram	415g ar gyfer trydan o wastraff cymysg sy'n cynnwys 60% biomas (coed, papur, bwyd a gwastraff gardd ayyb.) a 40% nad yw'n fïomas (plastigau ayyb.). 166g ar gyfer gwres.
Effaith ar fyd natur	Isel/Isel iawn	Llosgyddion yn eitha cryno, allyriadau llygru posibl yn cael eu trin gan mwya os ydynt yn cael eu rheoli'n dda. Effaith yn dibynnu ar sut byddai'r gwastraff yn cael ei drin fel arall.
Risgiau	Isel	Gallai annog pobl i beidio ag ailgylchu a diystyru adnoddau gwastraff os nad yw sbwriel yn cael ei ddiolli ond yn cael ei losgi i gadw'r llosgyddion ynghynn. Rhai peryglon iechyd o nwyon simneiau.
Effaith weledol	Bach	Llosgyddion yn gryno o'u cymharu â'u hallbwn. Mae angen iddynt dderbyn nifer mawr o gyflenwadau gwastraff.
Cost ar hyn o bryd	Isel iawn	Telir llosgyddion 'gwastraff i ynni' i ddelio â gwastraff yn ogystal â chynhyrchu gwres a thrydan.
Cost ymhen 20 mlynedd	Isel/Isel iawn	Yn lle hynny, gellid talu canolfannau trin gwastraff i gynhyrchu tanwyddau hylifol a deunyddiau ar gyfer dal a storio carbon.
Adnoddau'r DU	Gwael	Ychydig o adnoddau sydd ac yn debygol o fynd yn llai gyda mwy o ailgylchu a systemau trin eraill.
Dibynadwyedd/hyblygrwydd	Da iawn	Gall llosgydd gynhyrchu gwres a thrydan yn ddibynadwy a hyblyg cyhyd â bod gwastraff ar gael. <i>Gorau oll os na fydd gwastraff cymysg yn cael ei storio am ddyddiau.</i>